Adran Gwaith a Phensiynau

# Sut i ofyn am **Ailystyriaeth Orfodol**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **MR2WER** 08/23

# Cynnwys



1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 3


2



**Sut i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol**

Tudalen 6

3




**Gwybodaeth y mae angen i chi ei rhoi**

Tudalen 12

4




**Beth sy'n digwydd nesaf**

Tudalen 17

# 1 Cyflwyniad

Ar ôl i chi wneud cais am fudd-dal, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gwneud penderfyniad am eich cais.




Mae eich penderfyniad budd-dal yn seiliedig ar:

- Y rheolau ynghylch pwy all wneud cais am fudd-dal y gwnaethoch gais amdano
- Yr hyn a ddywedasoch wrthym pan wnaethoch gais am y budd-dal.




- Unrhyw ddogfennau neu wybodaeth ategol a roesoch i ni
- Unrhyw apwyntiadau yr aethoch iddynt
- Unrhyw wybodaeth arall yr oedd yn rhaid i ni ei chasglu fel rhan o'ch cais.



Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad hwn, gallwch ofyn i DWP edrych arno eto.



Pan fydd eich penderfyniad yn cael ei ystyried eto, mae DWP yn galw hwn yn **Ailystyriaeth Orfodol**.

?

Mae **'Ailystyriaeth Orfodol'** yn golygu byddwn yn edrych ar:


- Y wybodaeth a roesoch i ni yn wreiddiol
- Unrhyw wybodaeth newydd rydych yn ei rhoi
- A oes unrhyw newidiadau wedi bod yn eich amgylchiadau.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i weld a allwn newid ein penderfyniad.




Bydd y canllaw Hawdd i'w Ddarllen hwn yn esbonio:

- **Sut i ofyn** ar gyfer Ailystyriaeth Orfodol
- Beth sy'n digwydd ar ôl i chi ofyn am un.




Dylech wirio yn gyntaf **pryd y gallwch ofyn** am Ailystyriaeth Orfodol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllaw Hawdd i'w Ddarllen – **Deall Ailystyriaeth Orfodol**.

# 2 Sut i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol



Gallwch ein ffonio i siarad am eich penderfyniad.

Cysylltwch â rhif y llinell gymorth budd-daliadau ar eich llythyr penderfyniad.



Gallwch ysgrifennu llythyr yn dweud wrthym pam nad ydychyn cytuno â'ch penderfyniad.

Anfonwch eich llythyr i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad.




Os nad oes gennych lythyr penderfyniad, cysylltwch â'r swyddfa lle gwnaethoch gais am y budd-dal.




Gallwch hefyd lenwi Ffurflen gais am **Ailystyriaeth Orfodol**.




Gallwch gael y ffurflen drwy fynd ar-lein.

Ewch i: www.gov.uk/government/publications/challenge-a-decision-made-by-the-department-for-work-and-pensions-dwp.cy




Gallwch lenwi'r ffurflen ar eich cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol.

Yna mae angen i chi argraffu'r ffurflen a'i phostio.



Neu gallwch argraffu ffurflen wag
a’i llenwi â beiro.




Cofiwch lofnodi a dyddio eich ffurflen
gan ddefnyddio beiro.



Anfonwch eich ffurflen wedi’i
chwblhau ac unrhyw dystiolaeth
berthnasol i’r cyfeiriad ar frig eich
llythyr penderfyniad.




**O fewn 1 mis**

Os byddwch yn ysgrifennu atom, rhaid i'r llythyr neu'r ffurflen gyrraedd **o fewn 1 mis** i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.


UC Credyd Cynhwysol

Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, gallwch ddefnyddio'ch **dyddlyfr** i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol.


## Os na allwch ddefnyddio eich dyddlyfr, gallwch:



- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad
- Llenwi ac anfonwch ffurflen gais am Ailystyriaeth Orfodol
- Ffonio'r linell gymorth Credyd Cynhwysol.



Mae llinell gymorth Credyd Cynhwysol ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Rhif ffôn Llinell Saesneg:

**0800 328 5644**



Ffôn: **0800 328 1744**


# 3 Information you need to give





Dyddiad y penderfyniad budd-dal gwreiddiol.




Eich enw a'ch cyfeiriad.




Eich dyddiad geni.





Eich rhif Yswiriant Gwladol.




Yna bydd angen i chi egluro **pa ran** o'r penderfyniad sy'n anghywir a **pham**.

## Os ydych am anfon tystiolaeth




Mae angen i'ch tystiolaeth ddangos pam roedd y penderfyniad yn anghywir.

Gall enghreifftiau gynnwys:

- Unrhyw dystiolaeth feddygol newydd




- Adroddiadau neu gynlluniau gofal gan arbenigwyr, therapyddion neu nyrsys





- Cyfriflenni banc neu slipiau cyflog.





Dim ond tystiolaeth nad ydych **wedi'i hanfon eisoes y dylech ei chynnwys**.



Ni allwch hawlio cost unrhyw dystiolaeth y talwch amdani yn ôl.




Mae angen i chi ysgrifennu rhywfaint o wybodaeth ar frig **pob darn o dystiolaeth** rydych yn anfon.





Dylech ysgrifennu eich:

- Enw llawn
- Dyddiad Geni
- Rhif Yswiriant Gwladol.



Rhaid i chi anfon eich tystiolaeth i'r swyddfa lle gwnaethoch gais am eich budd-dal.

## Ni fydd yn helpu eich cais i gynnwys:




- Gwybodaeth gyffredinol am eich cyflwr fel taflenni ffeithiau, tystysgrifau meddygol neu nodiadau salwch.




- Cardiau apwyntiad neu lythyrau am apwyntiadau meddygol, oni bai na allech hawlio eich budd-dal oherwydd eich bod yn un o'r rhain.



- Llythyrau am brofion y gallech fod i fod i'w cael.



Os nad ydych yn siŵr pa dystiolaeth y dylech ei hanfon, gallwch ffonio'r rhif ar eich llythyr penderfyniad.


I gael rhagor o wybodaeth am dystiolaeth i'w hanfon, ewch i www.gov.uk/government/publications/challenge-a-decision-made-by-the-department-for-work-and-pensions-dwp.cy

Edrychwch ar **Sut i anghytuno gyda phenderfyniad a wnaethpwyd gan yr DWP**.


# 4 Beth sy'n digwydd nesaf



Bydd y swyddfa fudd-daliadau a roddodd y penderfyniad gwreiddiol i chi yn edrych arno eto.




Byddwch yn cael llythyr 'Hysbysiad Gorfodol Ailystyriaeth' i ddweud wrthych a ydynt wedi newid eu penderfyniad.





Bydd y llythyr hwn yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad newydd a'r dystiolaeth y seiliwyd ef arni.

## Os ydych yn anghytuno â'r canlyniad




Gallwch **apelio** i'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant os credwch fod yr hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol yn anghywir.



Mae'r **tribiwnlys** yn annibynnol ar y llywodraeth.

?

**Esbonio beth yw tribiwnlys**

Mae **tribiwnlys** yn gyfle i ddweud pam rydych yn anghytuno â'ch penderfyniad ar gyfer Ailystyriaeth Orfodol.

Bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu gan bobl nad ydynt yn gweithio i DWP. Mae hyn yn cynnwys barnwr a fydd yn gwrando ar ddwy ochr yr achos cyn gwneud penderfyniad.

I gael rhagor o wybodaeth am y tribiwnlys, ewch i [www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal/beth/syn/digwydd-yn-y-gwrandawiad](www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal/beth/syn/digwydd-yn-y-gwrandawiad)

I gael rhagor o wybodaeth am apelio, ewch i [www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal](www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal)




Fel arfer bydd angen i chi apelio o fewn **1 mis** i ddyddiad eich Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol.




Ni allwch apelio i'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant nes i chi gael eich hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Ailystyriaeth Orfodol, ewch i [www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol](http://www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol)